
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Rest Bay i Gadwraeth Natur Cynffig

## Gwyliwch y byd yn mynd yn ei flaen gyda golygfeydd gwych dros aber Afon Hafren a throsodd i Fryste a Gogledd Dyfnaint.

*"Yn fuan ar ôl gadael Rest Bay, mae'r morlin yn agor i draethlin greigiog, lle y gallwch weld piod môr prysur ac adar hirgoes eraill yn hedfan ar hyd yr arfordir. Oddi yma ceir golygfeydd gwych ar draws Môr Hafren a draw i Arfordir Gogledd Dyfnaint."*

**TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Maes parcio Rest Bay i Ganolfan Ymwelwyr Cynffig.

### Pellter:

3 milltir/5km.

### Ar hyd y ffordd...

Mae'r daith gerdded hardd hon yn cynnwys llongddrylliadau, twyni sy'n llawn bywyd gwyllt a llond bwcedi o dywod euraidd. O'r maes parcio yn Rest Bay, dilynwch Lwybr yr Arfordir i'r gorllewin. I'ch chwith mae traeth hir tywodlyd, ac i'r dde mae tir Clwb Golff Brenhinol Porthcawl, un o feysydd golff mwyaf clodfawr y DU.

Ym mhen pellaf y traeth mae Trwyn y Sger creigiog gyda golygfeydd gwych ar draws Bae Abertawe. Ym 1947 cafwyd llongddrylliad enwog yma, pan yrrwyd y llong ager Samtampa ar y creigiau gan storm gan golli'r criw cyfan.

Yn Nhrwyn y Sger gallwch wyro rhywfaint oddi ar y llwybr i gael golwg well ar Dŷ'r Sger. Bu'n ysbrydoliaeth i nofel R.D. Blackmore, 'The Maid of Sker', ac yn ôl chwedl leol mae nifer o ysbrydion yn aflonyddu'r lle.

Ym mhen pellaf Trwyn y Sger, mae Llwybr yr Arfordir yn parhau rhwng Traeth Cynffig a Thwyni Cynffig. Mae'r ardal fawr hon o dwyni tonnog yn Warchodfa Natur Genedlaethol, sy'n enwog am ei thegeirianau lliwgar a'i phoblogaeth o bryfed amrywiol. Yn union ar ôl i chi basio'r tafod o graig y môr a elwir yn Gwely'r Misgl, trowch i'r dde o Lwybr yr Arfordir drwy'r twyni i Ganolfan Ymwelwyr Gwarchodfa Natur Cynffig.

Gallwch olrhain eich camau ar gyfer eich taith yn ôl. Mae gwasanaeth bws cyfyngedig (rhif 265) i'r warchodfa natur ac yn ôl. Ar gyfer amseroedd a lleoliadau, gweler yr amserlen: <https://bustimes.org/services/265-kenfig-hill-porthcawl-comprehensive-school-3.

### Angen gwybod:

Ceir meysydd parcio, toiledau cyhoeddus a safleoedd bws ar ddau ben y daith. Mae dewis da o leoedd i fwyta ac yfed ym Mhorthcawl sydd gerllaw.